# TGAU Cymraeg Iaith Uned 2

## Disgrifio, Naratif ac Esbonio

## Bwyd

# Cymraeg Iaith Uned 2

# Disgrifio, Naratif ac Esbonio

# Bwyd

Mae chwe darn darllen ar y thema bwyd yn yr adran hon, rhai ohonynt yn bytiog ac eraill yn ddi-dor a mwy estynedig. Mae'r darnau yn amrywio o ran her.  Y mathau o ysgrifennu a welir yma yw **disgrifio, naratif ac esbonio** a bydd gofyn i'r ymgeiswyr gywain, cyfuno a dehongli gwybodaeth yn ogystal â defnyddio tystiolaeth i gefnogi casgliadau.  Dylai ymgeiswyr fod yn gyfarwydd â nodweddion y gwahanol fathau o ysgrifennu gan nodi pan fo'r nodweddion hynny'n berthnasol i fwriad awdur.  Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddefnyddio gwahanol stratagaethau darllen wrth iddynt ddarllen am y tro cyntaf ac yna wrth ddarllen i chwilio am wybodaeth benodol.

**Darn darllen 1**

Poster yw hwn sy'n cyflwyno pytiau o wybodaeth am Ŵyl Fwyd Maelor.  Ceir dyddiad a lleoliad yr ŵyl a gwybodaeth am weithgareddau.  Bydd angen darllen yr holl wybodaeth ac yna, ar ôl darllen y cwestiynau perthnasol, bydd angen cip ddarllen er mwyn dod o hyd i wybodaeth benodol.  Gellir defnyddio gweddill y wybodaeth, gan gynnwys y ddau logo a'r wefan i ateb cwestwn A9 lle mae gofyn ystyried pwysigrwydd bwyd yng Nghymru.

**Darn darllen 2**

Taflen wybodaeth yn esbonio bwriad y Plât Bwyta'n Iach yw'r darn hwn. Bydd angen darllen yr holl wybodaeth cyn edrych am wybodaeth benodol yn dilyn darllen cwestiwn A3.  Bydd angen adnabod geiriau allweddol yn y cwestiwn (*halen* ac *oedolion*) a chwilio am y geiriau hynny yn y darn darllen.  Bydd angen gofal wrth ddewis yr ateb cywir gan nad yw geiriad yr ateb yr un fath â geiriad y darn darllen.  Bydd angen meddwl am ystyr yr hyn a ddywedir yn ofalus a dehongli'r union ystyr cyn dewis yr ateb cywir. Gellir defnyddio gweddill y wybodaeth i ateb cwestwn A9 lle mae gofyn cymharu'r darnau darllen.  Bydd angen sgiliau dehongli wrth ystyried beth mae taflen o'r fath, sydd yn annog bwyta'n iach, yn ei dangos am bwysigrwydd bwyd yng Nghymru.

**Darn darllen 3**

Tabl yw hwn sy'n dangos ffordd o fyw oedolion yng Nghymru yng nghyd-destun iechyd. Dangosir canrannau ar gyfer dynion a merched ac yna'r canrannau ar gyfer oedolion dros 16 oed (yn ddynion a merched).  Er mwyn dewis  a yw'r gosodiadau yng nghwestiwn A4 yn gywir neu'n anghywir bydd angen prosesu'r wybodaeth am ddynion a merched cyn cymharu'r wybodaeth.  Rhaid cymhwyso'r wybodaeth a geir wedyn i'r gosodiad a phenderfynu a yw'n gywir neu'n anghywir.  Mae gofyn dehongli'r data a dehongli'n union beth mae'r gosodiad yn ei ddweud cyn penderfynu.  Gellir dethol y data ar fwyd ar gyfer ateb cwestiwn A9 gan ei fod yn rhoi darlun o arferion bwyta yng Nghymru.

**Darn darllen 4**

Dau ddarn naratif a geir yma o wefan *golwg360* yn trafod llwyddiannau ym myd y diwydiant bwyd yng Nghymru.  Bydd angen darllen y ddau ddarn yn ofalus cyn llithr ddarllen er mwyn chwilio am wybodaeth benodol.  Yn achos cwestiwn A5 bydd angen gwahaniaethu rhwng yr hyn sydd **wedi** digwydd i Ganolfan Bwyd Cymru Bodnant a'r hyn sydd **am** ddigwydd.  Nid yw'r gair *dyfodol* yn ymddangos yn y darn darllen felly rhaid chwilio am eiriau sy'n cyfleu'r dyfodol.  Mae'r ail ddarn yn nodi beth yw Seren Michelin ond bydd angen sgiliau dehongli er mwyn ateb cwestiwn A6 ac esbonio pam mae'r wobr yn bwysig i fwytai.  Bydd gweddill cynnwys y ddau naratif yn ddefnyddiol ar gyfer cwestiwn A9 gan ei fod yn adlewyrchu llwyddiant y diwydiant bwyd yng Nghymru.  Bydd angen sgiliau dehongli craff er mwyn cymhwyso'r wybodaeth i'r cwestiwn.

**Darn darllen 5**

Blog ar wefan S4C yw darn darllen 5 ac mae'n disgrifio ac yn esbonio cynnwys rhaglen olaf yn y gyfres bresennol o *Becws*.  Bydd angen sgiliau dehongli wrth geisio penderfynu pam mae'n rhyfedd mai am siocled mae'r rhaglen olaf.  Bydd angen deall pwy yw'r awdur a deall ei hagwedd cyn gallu ateb y cwestiwn yn gywir.  Wrth ateb cwestiwn A8 bydd angen ystyried bwriad yr awdur, arddull a diwyg er mwyn penderfynu bwriad a llwyddiant y darn.  Ar gyfer cwestiwn A9 bydd cynnwys y blog, o'i ddehongli, yn dangos bod bwyd yn ddigon poblogaidd yng Nghymru i allu llunio rhaglen amdano a hefyd bod cogyddion yn bobl adnabyddus.

**Darn darllen 6**

Darn o naratif disgrifiadol yw darn darllen 6 sy'n canolbwyntio ar ferch ifanc mewn caffi.  Bydd angen darllen y darn yn ofalus ac ystyried yr ystyr sydd ymhlyg ynddo.  Gellir ateb y cwestiwn hwn ar sawl lefel, o ymateb cryno ac uniongyrchol i ateb sy'n dehongli sawl agwedd ar gymeriad Siwan ac sy'n defnyddio tystiolaeth o'r darn darllen.  Gellir ystyried sut mae arddull yr awdur yn cyfrannu at greu'r cymeriad.

# Darnau Darllen

**TGAU**

**Cymraeg Iaith**

**UNED 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

**Deunydd Darllen i'w ddefnyddio gydag Adran A**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

## DARN DARLLEN 1

GŴYL FWYD

MAELOR

# GŴYL FWYD MAELOR
# MEDI 19-21
# CAE'R MARIAN,

menteriaith MAELOR

Gweithdy pobi gyda Beca Lyne-seren y rhaglenni *Becws* a'r *Great British Bake Off*

Gweithgareddau crefft i blant

Bwydydd amrywiol o bob rhan o Gymru

Rownd derfynol Cogydd Ifanc Maelor 2015

Ewch i [www.gwylfwydmaelor](www.gwylfwydmaelor) am fwy o wybodaeth ac i archebu tocynnau

Bandiau amrywiol yn perfformio yn y babell fawr drwy'r penwythnos

**DARN DARLLEN 2**

NHS Direct Wales
0845 46 47
Galw IECHYD Cymru




Bwriad y plât bwyta'n iach yw eich helpu i gael y cydbwysedd cywir yn eich deiet. Mae'n dangos faint dylech chi ei fwyta o bob grŵp bwyd.

Mae angen dewis opsiynau sy'n cynnwys llai o halen lle bo'n bosibl. Ni ddylai oedolion gael mwy na 6 gram o halen y dydd.

## Gofalu Amdanoch eich Hun — Y Plât Bwyta'n Iach

**DARN DARLLEN 3**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# StatsCymru

**Hafan** **Mewngofnodi** **Cofrestru** **Help**

**Ffordd o fyw yn ôl rhyw a blwyddyn (ystadegau Cymru)**

| Oed | Blwyddyn % | Ysmygwyr % | Yfed ychydig mwy o alcohol na'r canllaw % | Goryfed % | Bwyta 5 dogn o lysiau/ ffrwythau y dydd % | Ymarfer Corff o leiaf 5 gwaith yr wythnos % | Pwyso mwy na'r pwysau delfrydol % | Gordew % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dynion 16+ | 2013 | 23 | 48 | 32 | 31 | 37 | 63 | 22 |
| Merched 16+ | 2013 | 20 | 36 | 20 | 34 | 23 | 54 | 23 |
| Pawb 16+ | 2013 | 21 | 42 | 26 | 33 | 29 | 58 | 22 |

golwg 360

## Canolfan fwyd yn edrych i'r dyfodol

**Gorffennaf 15 14:45**



Mae Canolfan Bwyd Cymru Bodnant yn dathlu ei phen-blwydd cyntaf ar ôl croesawu dros 200,000 o ymwelwyr a gweini 57,800 o baneidiau yn ystod ei blwyddyn gyntaf.

Fe gafodd y ganolfan yn Nyffryn Conwy ei hagor yng Ngorffennaf 2012 ac mae'n gwerthu dros 700 o gynnyrch, yn gartref i siop fferm, ysgol goginio, cigydd, becws a llaethdy.

Dywedodd Rheolwr Gyfarwyddwr y ganolfan, Chris Morton: "Rydyn ni wedi datblygu ein gwasanaethau dros y flwyddyn ac rydyn ni'n bwriadu datblygu ymhellach dros y 12 mis nesaf. Mae'n tîm o 84 o staff wedi gweithio'n hynod o galed wrth i ni sefydlu'r gwaith, ac rydyn ni'n ymfalchïo yn y ffaith ein bod wedi cyflogi 97% o'r tîm yn lleol."

Ychwanegodd Neville Jones, Rheolwr Datblygu Busnes Bwyd Cymru: "Rydyn ni'n gweld cwsmeriaid lleol teyrngar yn mwynhau'r arlwy o fwyd sydd gan Gymru i'w chynnig, ac rydyn hefyd wedi croesawu cwsmeriaid o eithafion Ffrainc, Siapan a'r Almaen."

Mae'r ganolfan yn bwriadu agor siop win newydd a fydd yn gwerthu gwinoedd o Gymru a Phatagonia yn ogystal â chynnal nifer o ddigwyddiadau gwahanol megis gŵyl hufen iâ a ffrwythau'r haf.

## Dwy seren Michelin newydd i fwytai Cymru

**Medi 25 12:34,** Diweddarwyd am 12:43



Mae dau fwyty yng Nghymru wedi cael eu gwobrwyo â Seren Michelin, sy'n dynodi pa fwytai sy'n gweini'r bwyd gorau yn Ewrop.

Mae'n golygu bod pum bwyty yng Nghymru bellach â Seren Michelin – y nifer uchaf ar y rhestr ers 10 mlynedd.

Yn ymuno â The Walnut Tree yn Y Fenni, Tyddyn Llan yn Llandrillo a The Checkers yn Nhrefaldwyn, mae Ynyshir Hall ym Machynlleth a'r Crown yn Nhrefynwy.

Mae'r Michelin Guide wedi bod yn penderfynu pa fwytai sy'n cyrraedd y brig ers 100 mlynedd ac fe gafodd 14 seren eu cyflwyno ar gyfer 2015.

"Mae'r sêr newydd yn adlewyrchu'r cyfoeth a'r amrywiaeth yn y dewis o fwytai ym Mhrydain," meddai golygydd y canllaw, Rebecca Burr.

golwg360.com

DARN DARLLEN 5

S4C

# Wel, dyma raglen olaf cyfres Becws…



…a ‘dan ni am orffen efo bang! Siocled, siocled a mwy o siocled sydd yn y rhaglen yma! ‘Dw i ddim yn ffan enfawr o siocled, ond ‘dw i yn hoffi pobi efo fe a mae ‘na lot fawr o bobl yn ei hoffi, felly ‘dw i am rannu cwpwl o ryseitiau bach hawdd ond blasus efo chi.

Dim ond un rysait teuluol sydd yn y rhaglen heno, ond mae e’n ffefryn o fewn ein teulu ni. Rysait cwcis Anti Irene, felly cwcis Americanaidd go iawn.

Mae’r rysait yma’n gwneud lot fawr o cwcis, ond fyddan nhw ddim yn para’n hir! ‘Dw i ambell waith yn rhewi’r toes i’w ddefnyddio rywbryd arall ac maen nhw’n flasus iawn yn dwym o’r ffwrn efo llaeth oer!

‘Dan ni’n mynd draw i dreulio noson yng nghwmni aelodau Capel Minny St. yn y rhaglen hon. Dyma ble ces i fy medyddio, es i i’r ysgol Sul a’r clwb ieuenctid yno a nifer fawr o bartion Nadolig a thripiau i bob man, a dyma hefyd ble ‘nes i briodi. Mae wastad croeso mawr i’w gael yn y Capel – mae ‘na lot o hen athrawon yna a rhieni ffrindiau a ‘dw i wastad yn teimlo’n gartrefol yna.

Y rheswm wnaethon ni ymweld â’r Capel yw oherwydd ’mod i wedi cynnig helpu i godi arian at Cymorth Cristnogol ac apêl Haiti.

Roedd hi’n noson wych. Mae cymaint o gymeriadau yn y Capel a wnaethon ni ddim stopio chwerthin trwy’r nos!

A dyna ni – diwedd y gyfres gyntaf, ond mi fydda’ i’n ôl cyn Nadolig efo rhaglen arbennig ar gyfer yr ŵyl, ac eto yn y flwyddyn newydd efo ail gyfres Becws. Felly, cadwch eich llygaid ar y cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth cyn bo hir!!

Beca x

**DARN DARLLEN 6**

Siwan

O'i chornel yn y caffi gallai Siwan weld y criw o flwyddyn 11 yn mwynhau ar y teras y tu allan. Diolchai mai'r tu mewn yr oedd hi. Nid fod ots ganddi fod y criw yn herio ac yn chwerthin am y gorau; hawl i bawb ei hwyl. Trueni na fyddai hi ei hun yn gallu bod yn gyfforddus mewn criw ond roedd rhywbeth yn ei rhwystro rhag ymollwng a pheidio â hidio am farn pobl eraill.

*Paid ti â chymysgu efo'r criw yna cofia. Ddaw dim byd ond trafferth i dy ran di.* Clywai lais ei mam yn ei rhybuddio. *Cywilydd meddwl y byddai pobl yn siarad amdanat ti'n gwneud drygau efo hwliganiaid di-ddim fel 'na. Deud 'mod i'n methu cadw trefn ar fy merch fy hun…*

Chlywai Siwan mo chwerthin y criw oherwydd trwch y gwydr dwbl ond gwyddai mai digon diniwed oedd y rheswm dros yr hwyl. Setlodd ei llygaid ar y môr tu hwnt a sylwodd ar gwch hwylio unig yn symud yn osgeiddig tuag Ynys Lwyd . Mor braf fyddai bod yn y cwch bychan ymhell o olwg pawb gyda'r gwynt yn chwythu popeth o'i phen, popeth.

*Mae dy ben di'n y gwynt, hogan! Mynd i goleg chweched dosbarth filltiroedd i ffwrdd, wir! Gadael ben bore ac adre'n hwyr wedyn. A beth bynnag, 'nei di fyth ffitio i mewn i'r ffasiwn le.*

Caeodd ei llygaid a dychmygu'r gwynt yn ei gwallt, yn chwythu i mewn i'w phen gan godi popeth oddi yno fel dail crin yn chwyrlïo yn yr hydref. Doedd dim ar ôl, dim ond gwagle iddi hi ei lenwi â'i breuddwydion ei hun. Byddai'n mynd i'r coleg ac astudio coginio. Byddai'n berchen ar ei chaffi glan môr ei hun a byddai ei ddrysau ar agor i bawb. Byddai'n hapus yn pobi drwy'r dydd a byddai'n dod yn enwog am ei chacennau blasus…

"Ti'n iawn, Siwan? Siwan? Ti'n bell i ffwrdd!" Sylwodd Siwan fod Alaw yn siarad â hi. Alaw oedd yr unig un o'r dosbarth cofrestru oedd yn dyfalbarhau efo hi. Doedd dim bai ar y gweddill am ei hanwybyddu. Doedd ganddi hi ddim i'w gynnig i neb wedi'r cyfan. "Gymri di damed o gacen? 'Dw i ffansi un ond does gen i ddim lle i un gyfan chwaith."

Gyda'i breuddwyd yn tanio'i hyder, clywodd Siwan ei hun yn cytuno. Eisteddodd Alaw ar y gadair nesa' at Siwan a chynnig fforc iddi. Gwenodd Siwan a thorri tamaid o'r gacen…

"Fama wyt ti'n bradu amser, hogan?"

Cafodd y ddwy ferch fraw o glywed y llais cras o gyfeiriad y drws. Roedd un ohonynt yn adnabod y llais yn dda.

"Sawl gwaith 'dw i wedi deud wrthat ti am ddod yn syth adra o'r ysgol? Does wybod i ba drafferth yr ei di os nad wyt ti'n gallu gwrando ar dy fam. Dwyt ti ddim ffit i fynd i unrhyw goleg flwyddyn nesa…"

Rhoddodd Siwan ei fforc i lawr ar y bwrdd a gafaelodd yn ei bag ysgol. Wrth godi i fynd gwnaeth ei gorau i osgoi llygaid Alaw rhag iddi weld rhywbeth ynddyn nhw nad oedd hi eisiau ei weld.

# Papur Enghreifftiol

# TGAU

# CYMRAEG IAITH

# UNED 2

Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio

(PAPUR ENGHREIFFTIOL)

2 awr

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Deunydd Darllen

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.

Atebwch **bob** cwestiwn yn Adran A.

Dewiswch **un** o'r testunau yn Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn hwn.

Mae tudalennau ychwanegol ar ddiwedd y papur os oes angen mwy o le arnoch i ysgrifennu.

Awgrymir eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau canlynol wrth ateb pob cwestiwn:

| | |
|---|---|
| Adran A | – tua 10 munud yn darllen |
| | – tua 50 munud yn ateb y cwestiynau |
| Adran B1 | – tua 10 munud |
| Adran B2 | – tua 10 munud yn cynllunio |
| | – tua 40 munud yn ysgrifennu |

Ni chaniateir i chi ddefnyddio geiriaduron yn yr arholiad hwn.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Adran A (Darllen): 30 marc

Adran B (Ysgrifennu): 40 marc

Caiff nifer y marciau sydd ar gael ei ddangos mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran o gwestiwn.

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

Yn yr adran hon mae 6 darn darllen ar y thema 'Bwyd'. Darllenwch bob un o'r darnau'n ofalus ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn.

**Darn Darllen 1**

Gŵyl Fwyd Maelor

A1. Pa fath o weithgareddau i blant fydd yng Ngŵyl Fwyd Maelor? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

sgiliau syrcas ☐

pobi ☐

crefft ☐

perfformio ☐

A2. Rownd derfynol pa gystadleuaeth fydd yn cael ei chynnal yng Ngŵyl Fwyd Maelor? [1]

……………………………………………………………………………………..………......

……………………………………………………………………………………….............

**Darn Darllen 2**

Y Plât Bwyta'n Iach

A3. Faint o halen dylai oedolion ei gael mewn diwrnod? [1]

Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

6 gram ☐

mwy na 6 gram ☐

dim o gwbl ☐

6 gram neu lai ☐

**Darn Darllen 3**

A4. Nodwch a yw'r gosodiadau canlynol yn gywir neu'n anghywir. Mae un ateb wedi ei roi i chi'n barod. [3]

| | **Cywir** | **Anghywir** |
|---|---|---|
| Mae mwy o ferched na dynion yn goryfed. | | ✓ |
| Mae mwy o ddynion na merched yn ysmygu. | | |
| Mae llai na hanner pobl Cymru sydd dros 16 oed yn bwyta 5 dogn o ffrwythau / llysiau y dydd. | | |
| Mae llai o ferched yn ordew nag sydd o ddynion gordew. | | |

**Darn Darllen 4**

Golwg360

A5. Beth yw cynlluniau canolfan Bwyd Cymru ar gyfer y dyfodol? [2]

...……………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………

A6. Edrychwch ar yr ail erthygl. Pam mae Seren Michelin yn bwysig i fwytai? [1]

………………………………………………………………………………………………

………………………………………………………………………………………………

**Darn Darllen 5**

Blog Becws

A7. Nodwch pam ei bod yn rhyfedd mai am siocled y mae rhaglen olaf cyfres Becws? [1]

……………………………………………………………………………………………

...……………………………………………………………………………………………

A8. Pam rydych chi'n meddwl bod S4C yn cynnwys Blog Becws ar eu gwefan? [3]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

**Darnau Darllen 1-5**

A9. Ystyriwch ddarnau darllen 1-5 a nodwch pa mor bwysig yw bwyd yng Nghymru. Cofiwch roi rhesymau dros eich ateb. [6]

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

……………………………………………………………………………………………

**Darn Darllen 6**

**Siwan**

A10. Sut gymeriad yw Siwan? Cofiwch roi rhesymau dros eich barn a chyfeirio at y darn darllen. [6]

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………………

A11. **Golygu (5 marc)**

(i) Pa un o'r brawddegau canlynol sy'n pwysleisio i ble'r aeth Sara? [1]

(a) Sara aeth i'r disgo yn yr ysgol nos Wener.
(b) I'r disgo yn yr ysgol aeth Sara nos Wener.
(c) Nos Wener aeth Sara i'r disgo yn yr ysgol.

……………………………………………………………..................................

(ii) Newidiwch y frawddeg a ganlyn o'r person cyntaf i'r trydydd person (bachgen neu ferch): [2]

Es i gysgodi rhag yr haul gan na fedrwn ddioddef y gwres.

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

(iii) Ail ysgrifennwch y brawddegau a ganlyn gan osgoi dechrau brawddegau gyda *mae*: [2]

Mae Caerdydd yn ddinas hardd. Mae llawer o ddatblygu wedi bod yng Nghaerdydd dros y blynyddoedd diwethaf.

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

…………………………………………………………………………………………

**ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)**

Yn yr adran hon fe fyddwch yn cael eich asesu ar ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

B1. (i) Ticiwch y frawddeg gywir: [1]

Clywodd Dafydd fod y gêm wedi ei chanslo. ☐

Clywyd Dafydd fod y gêm wedi ei chanslo. ☐

(ii) Mae ansoddair wedi cael ei ddefnyddio yn anghywir yn y frawddeg a ganlyn. Cywirwch y gwall ac ysgrifennwch y frawddeg yn gywir. [1]

Yr Wyddfa yw'r mynydd uchelaf yng Nghymru.

……………………………………………………………………………………

(iii) Dewiswch y gair lluosog cywir a thynnwch linell rhwng y ddau flwch: [1]

| | |
|---|---|
| gwesty | gwesteion |
| | gwestydd |
| | gwestai |

(iv) Edrychwch ar y geiriau canlynol. Cylchwch y ddau sydd wedi eu sillafu'n anghywir. [2]

cyffroes    cystadleuaeth    efeithiol    hwyr

**[5]**

B2. Dewiswch **un** o'r canlynol i ysgrifennu amdano.
Bydd 20 marc am gynnwys a threfn a 15 marc am ysgrifennu'n gywir.
Dylech ysgrifennu rhwng 350-500 o eiriau. **[35]**

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy'n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

**Naill ai**

(a) **Ysgrifennwch daflen wybodaeth am fwyta'n iach a byw bywyd iach.**

*Yn ogystal ag ysgrifennu estynedig, gallwch gynnwys gwybodaeth bytiog megis tablau, diagramau ac yn y blaen ond peidiwch â threulio gormod o amser yn dylunio'r daflen.*

**neu**

(b) **Rydych chi mewn gŵyl fwyd neu farchnad brysur yn eich tref leol. Ysgrifennwch ddisgrifiad o'r hyn sy'n digwydd yno.**

CYNLLUN

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

TEITL:

# Cynllun Marcio

**TGAU**

**CYMRAEG IAITH**

**UNED 2**

**Darllen ac Ysgrifennu: Disgrifio, Naratif ac Esbonio**

**Cynllun Marcio**

**(PAPUR ENGHREIFFTIOL)**

**ADRAN A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1**

Gŵyl Fwyd Maelor

A1. Pa fath o weithgareddau i blant fydd yng Ngŵyl Fwyd Maelor? [1]

(Casglu gwybodaeth)

Un marc am:
- crefft

A2. Rownd derfynol pa gystadleuaeth fydd yn cael ei chynnal yng Ngŵyl Fwyd Maelor? [1]

(Casglu gwybodaeth)

Un marc am:
- Cogydd Ifanc Maelor 2015

**Darn Darllen 2**

Y Plât Bwyta'n Iach

A3. Faint o halen dylai oedolion ei gael mewn diwrnod? [1]

(Casglu gwybodaeth)

Un marc am:
- 6 gram neu lai

**Darn Darllen 3**

Stats Cymru

A4. Nodwch a yw'r gosodiadau canlynol yn gywir neu'n anghywir.
(Cyfuno a dehongli gwybodaeth**)** [3]

Cywir Anghywir

| | | |
|---|---|---|
| Mae mwy o ferched na dynion yn goryfed. | ☐ | Anghywir |
| Mae mwy o ddynion na merched yn ysmygu. | ☐ | Cywir |
| Mae llai na hanner pobl Cymru sydd dros 16 oed yn bwyta 5 dogn o ffrwythau/ llysiau y dydd. | ☐ | Cywir |
| Mae llai o ferched yn ordew na sydd yna o ddynion gordew. | ☐ | Anghywir |

**Darn Darllen 4**

Golwg360

A5. Beth yw cynlluniau canolfan Bwyd Cymru ar gyfer y dyfodol? [2]
(Casglu a dehongli gwybodaeth)

Un marc yr un hyd at ddau farc:

- bwriadu datblygu ymhellach dros y 12 mis nesaf
- agor siop win newydd (a fydd yn gwerthu gwinoedd o Gymru a Phatagonia)
- cynnal nifer o weithgareddau gwahanol megis gŵyl hufen iâ a ffrwythau'r haf

A6. Edrychwch ar yr ail erthygl. Pam mae Seren Michelin yn bwysig i fwytai? [1]
(Casglu a dehongli gwybodaeth)

Un marc am:

- dangos eu bod yn gweini'r bwyd gorau yn Ewrop

**Darn Darllen 5**

Blog Becws

A7. Nodwch pam ei bod yn rhyfedd mai am siocled y mae rhaglen olaf cyfres Becws? [1]

(Casglu a dehongli gwybodaeth)

Un marc am:
- Nid yw'r blogiwr/ cyflwynydd/ cogydd yn ffan o siocled.

A8. Pam rydych chi'n meddwl bod S4C yn cynnwys Blog Becws ar eu gwefan? [3]
(Gwerthuso defnyddioldeb, perthnasedd a chyflwyniad / deall a chydnabod diben/ cefnogi safbwynt)

Gellir sôn am bwyntiau megis:
- rhoi gwybodaeth am gynnwys y rhaglen
- denu gwylwyr trwy wneud i'r rhaglen swnio'n ddiddorol
- denu pobl sy'n mynd ar wefan S4C i wylio'r rhaglen
- rhoi rhesymau dros ddewis ryseitiau a ble mae'r rhaglen yn ymweld ag o (Capel Minny Street)
- darllen barn y cyflwynydd am y rhaglen
- dod i adnabod y cyflwynydd yn well – defnydd o'r iaith lafar
- hysbysebu rhaglen y Nadolig a'r ail gyfres o Becws
- annog darllenwyr/gwylwyr i gadw eu llygaid ar y cyfryngau cymdeithasol am fwy o wybodaeth
- difyrru'r gynulleidfa- ebychiadau
- dod â'r rhaglen yn fyw
- annog mwy i wylio'r rhaglenni nesaf
- blogiau'n ffordd gyfoes o ddenu gwylwyr ifanc

Un marc
- nodi bwriad S4C/ yr awdur yn fras gan ymdrechu i resymu

Dau farc
- nodi bwriad S4C/ yr awdur yn glir gan nodi rhesymau dilys

Tri marc
- nodi bwriad S4C/ yr awdur yn bendant gan nodi rhesymau craff

**Darnau Darllen 1-5**

A9. Ystyriwch ddarnau darllen 1-5 a nodwch pa mor bwysig yw bwyd yng Nghymru. Cofiwch roi rhesymau am eich ateb. [6]
(Sgiliau rhesymu geiriol wrth gyfuno a chrynhoi gwybodaeth o amrywiaeth o destunau/ cyfeirio at dystiolaeth)

Gellir sôn am bwyntiau megis:
Casglu gwybodaeth:

- bwydydd amrywiol i'w cael yng Nghymru
- galw Iechyd Cymru yn wasanaeth sy'n rhoi cyngor ar fwyta'n iach yng Nghymru- llinell gymorth
- y plat bwyta'n iach yn rhoi darlun clir o'r hyn ddylid ei fwyta
- Llywodraeth Cymru/ Stats Cymru yn gwneud ymchwil i fwyta'n iach ( a byw yn iach)
- dim ond traean o bobl Cymru sy'n bwyta 5 dogn o ffrwythau/ llysiau bob dydd
- busnesau bwyd yn llwyddiannus yng Nghymru- canolfan Bwyd Cymru Bodnant/ dau fwyty arall yn cael Seren Michelin
- diwydiant bwyd yn cyflogi pobl leol e.e. canolfan Bwyd Cymru Bodnant
- gwyliau dathlu bwydydd fel hufen iâ a ffrwythau'r haf (cynluniau)
- 5 bwyty Seren Michelin yng Nghymru- y nifer uchaf ers 10 mlynedd
- rhaglen deledu am goginio ar S4C- Becws
- gwybodaeth am Becws ar y cyfryngau cymdeithasol Dehongli gwybodaeth:
- gŵyl fwyd yn dangos pwysigrwydd bwyd a'i fod yn rhywbeth i'w ddathlu
- pobl yn enwog am goginio e.e. Beca Lyne-Pirkis
- cystadleuaeth Cogydd Ifanc Maelor yn dangos fod diddordeb mewn coginio ymysg pobl ifanc
- pobl angen gwybodaeth/ cael eu dysgu am fwyta'n iach
- Galw Iechyd Cymru yn wasanaeth sy'n rhoi cyngor ar fwyta'n iach yng Nghymru
- y ffaith fod angen cyngor ar fathau o fwydydd/ halen yn awgrymu nad yw pawb yng Nghymru'n bwyta'n iach
- ffaith bod Llywodraeth Cymru/ Stats Cymru yn gwneud ymchwil a chyhoeddi ffigyrau'n dangos bod problem/ eu bod yn pryderu am arferion bwyta'r genedl
- ffaith bod cynifer o bobl ordew yng Nghymru yn dangos fod gennym broblemau'n ymwneud â bwyta
- bwyd Cymru o safon uchel- cydnabyddiaeth/ gwobrau
- diwydiant bwyd llwyddiannus- llawer o gwsmeriaid
- cynlluniau canolfan Bwyd Cymru Bodnant ar gyfer y dyfodol yn dangos hyder yn y diwydiant
- ffaith bod rhaglen deledu / blog/ gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol am bobi yn dangos poblogrwydd bwyd a choginio ymysg pobl o bob oedran/ dangos diddordeb pobl mewn coginio

1-2 farc
Ateb y cwestiwn yn fras gan gyflwyno ambell ffaith o'r darn darllen.

2-3 marc
Ateb y cwestiwn gyda manylder ar adegau gan gyfeirio at ffeithiau o'r darn darllen, o bosibl yn dyfynnu.

4-5 marc
Ateb y cwestiwn yn fanwl gan ddehongli ffeithiau a chyfeirio at y darnau darllen yn gyson gan ddyfynnu o'r testunau.

6 marc
Ateb y cwestiwn yn bwrpasol a dehongli'n hyderus gan ddyfynnu a chyfeirio at y darnau'n gyson.

**Darn Darllen 6**

Siwan

A10. Sut gymeriad yw Siwan?. Cofiwch roi rhesymau dros eich barn a chyfeirio at y darn darllen. (Casglu a dehongli gwybodaeth/ defnyddio tystiolaeth/ dehongli gwybodaeth a syniadau) [6]

Gellir sôn am bwyntiau megis y rhai a ganlyn a gellir defnyddio pwyntiau o'r ddwy restr:

- Eistedd yn y gornel yn edrych ar y criw a diolch mai tu mewn oedd hi - ofn ymuno? Awgrym o guddio?
- Teimlo trueni na allai hi fod yn gyfforddus mewn criw ac yn hidio gormod am farn eraill- hyn yn awgrymu gwendid.
- Llais ei mam yn glir yn ei phen - yn gadael iddi hi ei rheoli.
- Eisiau dianc ar y cwch- dianc yn beth gwan i'w wneud.
- Llenwi ei phen gyda breuddwydion - gallu breuddwydio ond yn rhy wan i'w gwireddu.
- Dweud fod ganddi ddim i'w gynnig i bobl eraill ac yn derbyn fod pobl wedi stopio gwneud ymdrech gyda hi - awgrymu gwendid gan ei fod yn derbyn popeth yn lle newid pethau.
- Llais ei mam yn achosi braw - byw mewn ofn.
- Gwrando ar ei mam a gadael y caffi'n syth - rhy wan i ofyn gaiff hi orffen ei chacen hyd yn oed.
- Rhy wan i edrych yn llygaid Alaw/ ofn beth a welai hi ynddynt.

- Diolch ei bod y tu mewn ac nid efo'r criw - nid gwan ond hoff o'i chwmni ei hun.
- Ddim yn meindio fod pawb yn cael hwyl felly nid yw'n genfigennus.
- Teimlo trueni na allai hi fod yn gyfforddus mewn criw ac yn hidio gormod am farn eraill - dod i adnabod hi ei hun a hyn yn awgrymu cryfder cymeriad.
- Clywed llais ei mam - ei mama yn gymeriad cryf ond nid yw hyn yn golygu bod Siwan yn wan.  Mae hi'n cael ei bwlio.
- Eisiau dianc ar y cwch - ddim o reidrwydd yn wan dim ond ei bod yn dioddef bywyd digon anodd a byddai unrhyw un arall eisiau dianc hefyd.
- Eisiau i'r gwynt wagio'i phen er mwyn iddi gael ei lenwi gyda breuddwydion- dangos ychydig o gryfder cymeriad.
- Magu hyder wrth freuddwydio - y brawddegau'n adeiladu'r cyffro a'r ataliaith yn awgrymu bod mwy o freuddwydion.
- Dihyder yn hytrach nag wan - yn meddwl nad oes ganddi ddim i'w gynnig i bobl eraill.
- Nid gwendid ond cywilydd sy'n gwneud iddi osgoi llygaid Alaw.

1-2 farc
Ateb y cwestiwn yn fras gan gyflwyno ambell ffaith o'r darn darllen.

2-3 marc
Ateb y cwestiwn gyda manylder ar adegau gan gyfeirio at ffeithiau o'r darn darllen, o bosibl yn dyfynnu.  Ymgais i fynegi barn.

4-5 marc
Ateb y cwestiwn yn fanwl gan ddehongli ffeithiau a chyfeirio at y darnau darllen yn gyson gan ddyfynnu o'r testunau.  Mynegi barn yn weddol gyson.

6 marc
Ateb y cwestiwn yn bwrpasol a dehongli'n hyderus gan ddyfynnu a chyfeirio at y darnau'n gyson.  Mynegi barn yn aeddfed a deallus.

A11. Golygu (5 marc)

(i) Pa un o'r brawddegau canlynol sy'n pwysleisio i ble'r aeth Sara? [1]

Un marc am:
(a) I'r disgo yn yr ysgol aeth Sara nos Wener.

(ii) Newidiwch y frawddeg a ganlyn o'r person cyntaf i'r trydydd person (bachgen neu ferch): [2]

Es i gysgodi rhag yr haul gan na fedrwn ddioddef y gwres.

Un marc am:
- Aeth e/o/ hi

Un marc am:
- fedrai

(iii) Ail ysgrifennwch y brawddegau a ganlyn gan osgoi dechrau brawddegau gyda mae: [2]

Gellir gwobrwyo brawddegau sy'n newid y berfau yn gywir heb newid ystyr y darn.
e.e. cywir:
Dinas hardd yw Caerdydd.
Bu llawer/ cafwyd llawer/ Cafodd Caerdydd ei datblygu
e.e. anghywir:
Roedd Caerdydd yn ddinas hardd.
Roedd llawer o ddatblygu wedi bod…

**ADRAN B (Ysgrifennu): (40 marc)**

Yn yr adran hon fe fyddwch yn cael eich asesu ar eich ansawdd eich sgiliau ysgrifennu.

B1. (i) Ticiwch y frawddeg gywir: [1]

Un marc am:
Clywodd Dafydd fod y gêm wedi ei chanslo. ✓

(ii) Mae ansoddair wedi cael ei ddefnyddio yn anghywir yn y frawddeg a ganlyn. Cywirwch y gwall ac ysgrifennwch y frawddeg yn gywir. [1]

Yr Wyddfa yw'r mynydd uchelaf yng Nghymru.

Un marc am:
- uchaf

(iii) Dewiswch y gair lluosog cywir a thynnwch linell rhwng y ddau flwch: [1]

gwesty gwestai

(iv) Edrychwch ar y geiriau canlynol. Cylchwch y ddau sydd wedi eu sillafu'n anghywir. [2]

cyffroes efeithiol

[5]

B2. Dewiswch un o’r canlynol i ysgrifennu amdano.
Bydd 20 marc am gynnwys a threfn a 15 marc am ysgrifennu’n gywir.
Dylech ysgrifennu rhwng 350-500 0 eiriau. **[35]**

*Gallwch gynllunio eich gwaith yn y blwch isod cyn dechrau ysgrifennu ar y tudalennau sy’n dilyn.*

*Gallwch ddefnyddio tudalen ychwanegol os bydd angen.*

*Os byddwch yn defnyddio gwybodaeth o'r testunau bydd angen i chi ddefnyddio eich geiriau eich hun.*

**Naill ai**

(a) **Ysgrifennwch daflen wybodaeth am fwyta’n iach a byw bywyd iach.**

*Yn ogystal ag ysgrifennu estynedig, gallwch gynnwys gwybodaeth bytiog megis tablau, diagramau ac yn y blaen ond peidiwch â threulio gormod o amser yn dylunio’r daflen.*

**neu**

(b) **Rydych chi mewn gŵyl fwyd neu farchnad brysur yn eich tref leol. Ysgrifennwch ddisgrifiad o’r hyn sy’n digwydd yno.**

**ADRAN B2 (Ysgrifennu) (35 marc)**

| | *CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 5** | **17–20 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **13-15 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **13-16 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **10-12 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **9-12 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **7-9 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 2** | **5-8 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **4-6 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-4 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-3 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |

**Mewn tasgau esbonio, disgwylir i ymgeiswyr resymu ac egluro ar sail deall a chyfuno syniadau / gwybodaeth sydd wedi eu cywain o'r testunau darllen ac o brofiadau personol.**